WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Lleihau tlodi plant ac arwahanrwydd cymdeithasol a gwella cynhwysiant economaidd' – **Cyngor Sir Mynwy**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1559A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Mynwy fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Wilson, Charlotte Owen, Allison Rees a Lisa Ridley, a'r rheolwr rhaglen Non Jenkins dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn dechrau cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas â'i agenda cyfiawnder cymdeithasol, ond nid oes cynllun hirdymor ganddo eto

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am y materion a'r heriau ond nid oes cynllun hirdymor ganddo eto i gyflawni'r cam hwn 6

Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam hwn gyda ffocws clir ar atal ond nid oes ganddo fodd i fesur deilliannau ataliol dros y tymor hir 7

Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam hwn i gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol ac mae'r broses o gyflawni wedi'i hintegreiddio'n dda yng nghynlluniau rhai partneriaid 9

Mae cydweithio'n fodd allweddol i gyflawni agenda cyfiawnder cymdeithasol y Cyngor ac mae trefniadau cydweithredol y mae'r Cyngor yn eu hwyluso sydd wedi hen ennill eu plwyf 10

Mae'r Cyngor wedi adnabod rhai grwpiau ac unigolion y mae angen iddo'u cyrraedd i gyflawni'r cam hwn ac mae wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol, ond mae'n ymwybodol bod angen gwneud mwy 13

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 17

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o 'lleihau tlodi plant ac arwahanrwydd cymdeithasol a gwella cynhwysiant economaidd', cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei amcanion llesiant.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth leihau tlodi plant ac arwahanrwydd cymdeithasol a gwella cynhwysiant economaidd.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y 'pum ffordd o weithio'

Mae'r tabl isod yn nodi'r 'pum ffordd o weithio' a ddiffinnir yn nogfen 'Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[1]' Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: Mae'r Cyngor yn dechrau cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas â'i agenda cyfiawnder cymdeithasol, ond nid oes cynllun hirdymor ganddo eto.

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

## Mae'r Cyngor yn dechrau cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn perthynas â'i agenda cyfiawnder cymdeithasol, ond nid oes cynllun hirdymor ganddo eto

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am y materion a'r heriau ond nid oes cynllun hirdymor ganddo eto i gyflawni'r cam hwn

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

11 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

12 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae gan y Cyngor Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol sy'n rhychwantu'r pum mlynedd o 2017-2022 a chynllun gweithredu i gyd-fynd â hi (y cafodd y ddau ohonynt eu diweddaru ym mis Mehefin 2019). Mae'r strategaeth hon yn nodi'r materion a'r heriau o ran mynd i'r afael â'r cam hwn ac yn defnyddio'r asesiad llesiant a gwblhawyd yn 2017 i ddarparu data sy'n amlygu materion tlodi plant, arwahanrwydd cymdeithasol a chynhwysiant economaidd;
- fe sefydlodd y Cyngor Grŵp Cynghori ar Gyfiawnder Cymdeithasol. Grŵp trawsbleidiol yw hwn sy'n goruchwylio'r gwaith i gyflawni'r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol. Bwriad y Grŵp Cynghori yw rhoi cymorth i wneud y strategaeth yn fenter hirdymor sy'n mynd y tu hwnt i dymor gweinyddol gwleidyddol cyfredol y Cyngor;

[2] Gweler Atodiad 1

- yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017, fe greodd y Cyngor bortffolio Cabinet newydd ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol i arwain ar yr agenda hon;
- mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid presennol a, lle y bo angen, comisiynu partneriaid newydd i roi cymorth gwerthuso ansoddol i sicrhau bod effaith dulliau ac ymyriadau'n gallu cael ei mesur dros amser yn ogystal â deall effeithiolrwydd byrdymor;
- mae'r Cyngor wedi datblygu set o gwestiynau i arwain ei werthusiad o'r cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol tan 2022. Bydd y Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf yn cael adroddiadau ar gynnydd, gyda'r Cabinet yn ystyried unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Dethol; ac
- mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yng Ngwent i gomisiynu gwaith i ddatblygu set o fesurau ac arolygon meintiol a fydd yn galluogi cynghorau i ddeall cyflwr llesiant ar hyn o bryd. Bydd datblygu'r Mynegai Lleoedd Llewyrchus yn mesur yr amodau lleol ar gyfer llesiant cymunedol ac mae gwaith blaenorol ar y Pwls Hapusrwydd wedi helpu i fesur llesiant personol. Gellir defnyddio'r ddau offeryn i oleuo penderfyniadau ar lefel cymunedau, wardiau, neu'r sir gyfan yn ogystal â chymharu llesiant ledled Gwent a rhanbarthau eraill yn y DU. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r set o ddata meintiol i fesur cynnydd yn erbyn y cam hwn.

14 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- er bod y Cyngor o'r farn y bydd ei Gynllun Uchelgais Economaidd, sy'n edrych ymlaen tuag at 2040, y Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r Cynllun Trafnidiaeth (hyd at 2033) yn cefnogi prosiectau hirdymor i gyflawni'r cam hwn, nid oes un cynllun hirdymor trosfwaol ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol.

## Mae'r Cyngor wedi dylunio'r cam hwn gyda ffocws clir ar atal ond nid oes ganddo fodd i fesur deilliannau ataliol dros y tymor hir

### Yr hyn y chwilion ni amdano

15 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

16 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘atal’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[3]

## Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y cryfderau canlynol:

- ym mis Medi 2017, fe gymeradwyodd y Cabinet benderfyniad i ailstrwythuro’r Tîm Lle Cyfan a’r Tîm Partneriaethau i greu Tîm Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau â ffocws newydd. Dau faes cyfrifoldeb ar gyfer y tîm newydd hwn yw mynd ati ymhellach i roi cymorth i gyflawni blaenoriaethau cyfiawnder cymdeithasol y Cyngor a chryfhau’r cyfathrebu a’r cysylltiadau rhwng y BGC, y Cyngor ac anghenion cymunedau lleol;
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am achosion sylfaenol tlodi plant, arwahanrwydd cymdeithasol a chynhwysiant economaidd ac mae ganddo nifer o gamau gweithredu yn y strategaeth cyfiawnder cymdeithasol a’r cynllun gweithredu cysylltiedig i fynd i’r afael â thlodi ac arwahanrwydd a’u hatal yn y dyfodol. Mae’r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2019 yn cynnwys 13 o gamau gweithredu newydd i roi cymorth i gyflawni’r tair thema yn y strategaeth, sef:
  - gwneud cyfiawnder cymdeithasol i blant yn ganolog i’r hyn a wnawn – ‘rhoi’r dechrau gorau mewn bywyd i blant, gan oresgyn rhwystrau i gyrhaeddiad a chyfle’;
  - gwneud cyfiawnder cymdeithasol a ffyniant economaidd teg yn ganolog i’r hyn a wnawn – ‘goresgyn anghydraddoldebau o ran mynediad at ffyniant economaidd’; a
  - gwneud cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol yn ganolog i’r hyn a wnawn i fynd i’r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd – ‘mynd i’r afael â phla unigrwydd ac arwahanrwydd’.
- mae naw maes allweddol yn y strategaeth cyfiawnder cymdeithasol y bydd y Cyngor yn eu mesur i sicrhau bod blaenoriaethu amlwg yn digwydd;
- enghreifftiau o gamau gweithredu sy’n cefnogi atal yn y strategaeth cyfiawnder cymdeithasol yw:
  - datblygu llwybr integredig ymyrryd yn gynnar ac atal i gefnogi plant a theuluoedd ar y cyfle cynharaf a lleihau’r angen am ymyriad statudol i gadw pobl yn ddiogel, yn enwedig y rhai â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE);
  - cynyddu argaeledd a chyfraddau defnydd band eang ledled y sir i fynd i’r afael ag allgáu digidol; a
  - chynnwys atal mwy o ddigartrefedd, adnabod a chynyddu cyfleoedd tai yn y sector preifat a chyflwyno opsiynau tai newydd megis tai llety.

[3] Gweler Atodiad 1

- mae lleihau tlodi plant yn cysylltu â gweithgarwch cydweithredol y BGC ar leihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Bu’r Cyngor yn rhan o weithdai ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a drefnwyd gan y BGC i helpu i hysbysu partneriaid sut i liniaru effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a fydd, gobeithio, yn arwain at atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod dros amser.

18 Canfuom y maes canlynol ar gyfer gwella:

- gall fod angen cyllid gorgyffyrddol ar gyfer mentrau atal ac nid yw’r Cyngor wedi adnabod cyllideb ychwanegol i gyflawni’r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol. Mae’r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ystyried defnyddio cyllid grant i dargedu gwaith i gyflawni’r cam hwn;
- nid yw’r Cyngor wedi datblygu ffyrdd o fesur deilliannau ataliol dros y tymor hir eto.

## Mae’r Cyngor wedi dylunio’r cam hwn i gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol ac mae’r broses o gyflawni wedi’i hintegreiddio’n dda yng nghynlluniau rhai partneriaid

### Yr hyn y chwilion ni amdano

19 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai’r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni’r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni’r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

20 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘integreiddio’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- fe wnaeth y Cyngor asesu cyfraniad ei themâu cyfiawnder cymdeithasol o ran cefnogi’r saith nod llesiant cenedlaethol;
- cafodd Cynllun Datblygu Lleol Newydd (a ddiweddarwyd ym mis Mehefin 2019) ei oleuo gan Asesiad Llesiant Sir Fynwy ac mae’n nodi 17 o amcanion gyda phump ohonynt yn cefnogi’r cam hwn a chyda phob un ohonynt yn cydberthyn yn uniongyrchol â’r saith nod llesiant cenedlaethol;

[4] Gweler Atodiad 1

- mae uchelgais y Cyngor i leihau tlodi plant ac arwahanrwydd cymdeithasol a gwella cynhwysiant economaidd wedi'i gynnwys yng nghynllun llesiant y BGC. Er enghraifft:
  - mynd i'r afael ag achosion profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a pharhad problemau o un genhedlaeth i'r llall mewn teuluoedd;
  - cefnogi cydnerthedd plant a phobl ifanc mewn perthynas â'u hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol; a
  - deall dyfodol gwaith yn well a sicrhau bod hyfforddiant ac addysg yn cysylltu â busnesau i adnabod y sgiliau y mae eu hangen yng ngweithlu Sir Fynwy yn awr ac yn y dyfodol.
- ceir cysondeb â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc ac i wella Iechyd Meddwl, Llesiant a Chydnerthedd Cymunedol a Phersonol;
- Cytunodd partneriaid yn y BGC i fabwysiadu'r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol. Mae'r gefnogaeth hon yn hanfodol gan bod angen cefnogaeth partneriaid i gyflawni'r strategaeth cyfiawnder cymdeithasol, gyda pherthnasoedd da rhwng cyrff y BGC.

22 Canfuom y maes canlynol ar gyfer gwella:

- er bod enghreifftiau o nifer o feysydd gwasanaeth yn y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Cyfiawnder Cymdeithasol (gweler yr adran ar Gydweithio), mae swyddogion y Cyngor yn cydnabod yr angen am fwy o berchnogaeth ar draws y Cyngor ar y cam o ystyried y cysylltiadau niferus rhwng gwahanol wasanaethau, er enghraifft cyrhaeddiad addysgol da, lefelau cyflogaeth, ffyniant a.y.b.

## Mae cydweithio'n fodd allweddol i gyflawni agenda cyfiawnder cymdeithasol y Cyngor ac mae trefniadau cydweithredol y mae'r Cyngor yn eu hwyluso sydd wedi hen ennill eu plwyf

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

24 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘cydweithio’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[5]

## Yr hyn a ganfuom

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae’r cyfrifoldeb am arwain ar gyflawni’r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu cyfiawnder cymdeithasol yn cael ei rannu ymhlith nifer o feysydd gwasanaeth yn y Cyngor ac ymhlith partneriaid allanol. Er enghraifft:
  - Y tîm datblygu cymunedau a phartneriaethau
  - Y gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc
  - Y Grŵp Cyfiawnder Cymdeithasol
  - Monlife
  - Gwasanaethau ieuenctid
  - Y Bartneriaeth Cynhwysiant Ariannol, Economaidd a Digidol (FEDIP)
  - Yr Economi ac Arloesi
  - Menter
  - Tai a Chymunedau
  - Cymdeithas Tai Sir Fynwy
  - Cartrefi Melin
  - Y Rhaglen Datblygu Gwledig
- i leihau tlodi plant, mae gwella cynhwysiant economaidd rhieni’n hollbwysig. Mae’r Cyngor yn deall na all fynd i’r afael â thlodi plant yn unig. Er enghraifft, mae’r Cymdeithasau Tai yn gweithredu model ‘Pasbort i....’. Er enghraifft, mae’r Cymdeithasau Tai yn gweithio gyda’r gwasanaethau cymdeithasol i hyfforddi tenantiaid fel darpar weithwyr gofal. Mae nifer o fanteision i’r fenter hon, megis hyfforddi tenantiaid mewn sgiliau newydd, cynyddu eu cyflogadwyedd ac unioni’r diffyg gweithwyr gofal hyfforddedig yn y Sir;
- Panel Cymorth Cynnar amlasiantaeth Sir Fynwy yw’r pwynt mynediad sengl ar gyfer llesiant emosiynol plant. Nod y panel yw sicrhau bod teuluoedd yn cael y gwasanaeth cywir, y tro cyntaf, ar yr adeg gywir, a bod gwasanaethau’n gweithio mewn ffordd gydgysylltiedig. Yn Sir Fynwy, mae’r holl atgyfeiriadau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed yn mynd trwy’r Panel Cymorth Cynnar. Defnyddir y Panel hwn fel model arfer da ar draws cynghorau eraill Gwent;
- mae’r gwasanaeth Tai yn cydweithio’n agos gyda chydweithwyr iechyd i gefnogi blaenoriaethau Iechyd. Er enghraifft, mynd i’r afael â materion

[5] Gweler Atodiad 1

iechyd meddwl a gweithio gyda chleifion i'w symud yn ôl i gymunedau. Ceir grŵp Iechyd a Thai sy'n cwrdd yn rheolaidd;

- prif rôl FEDIP yw cydlynu'r gwaith o ddatblygu a chyflawni Cynllun Gweithredu Gwrthdlodi Sir Fynwy a chydweithio i ddatblygu a darparu gwasanaethau wedi'u targedu sy'n mynd i'r afael ag allgau ariannol, economaidd a digidol ledled Sir Fynwy a gwella'r gwasanaethau hynny sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'r Fenter 'Pasbort i...', y Tai a Rennir i Bobl Ifanc a Newyn yn y Gwyliau yn eitemau diweddar ar agenda'r grŵp hwn sy'n cynnwys nifer o bartneriaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector;
- ceir parodrwydd ymhlith cydweithwyr y cyngor i gydweithio a meithrin a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol wrth gyflawni'r cam hwn.

26 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i weithio gyda chynghorau tref ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chlystyrau o gynghorau tref i alluogi sgyrsiau am fynd i'r afael â blaenoriaethau o ran cyfiawnder cymdeithasol i ddigwydd yn yr ardaloedd lleol hynny;
- mae'r Cyngor yn cydnabod angen i fynd i'r afael â 'newyn yn y gwyliau' ac mae gwaith ar y gweill gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â hyn. Y bwriad yw bod y prosiect hwn yn cael ei wireddu'n llawn erbyn haf 2020;
- fe wnaeth swyddogion y Cyngor adnabod angen i ddeall y sector busnes yn well i asesu pa rôl all fod gan y sector hwn i gyflawni'r cam hwn;
- Mae'r Cyngor wedi gwneud dewis gweithredol i hwyluso yn hytrach na llywio gweithgareddau grwpiau cymunedol a grwpiau yn y trydydd sector mewn perthynas â'r cam hwn, ond gallai ystyried pa mor effeithiol yw'r dull hwn ac a ddylai fod â rôl fwy gweithredol o ran cydlynu gweithgarwch cydweithredol;
- er bod swyddogion y Cyngor yn dweud bod cydweithio'n gweithio'n dda, maent yn cydnabod y gellir gwella cydgynllunio a chydgomisiynu ymhellach yn ogystal â gwella trefniadau rhannu gwybodaeth ymhellach.

## Mae'r Cyngor wedi adnabod rhai grwpiau ac unigolion y mae angen iddo'u cyrraedd i gyflawni'r cam hwn ac mae wedi cynnwys rhanddeiliaid allweddol, ond mae'n ymwybodol bod angen gwneud mwy

### Yr hyn y chwilion ni amdano

27 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

28 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuom

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae nifer o enghreifftiau o swyddogion y Cyngor yn gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd i adnabod eu hanghenion. Mae'r 'Tîm o Amgylch y Teulu' yn gweithio gyda theuluoedd unigol i bennu eu nodau eu hunain;
- Mae swyddogion y Cyngor yn ymgysylltu â'r Fforwm Ieuenctid. Y ffocws presennol a nodwyd gan bobl ifanc yw digartrefedd, iechyd meddwl a throseddau cyllyll. Mae'r Cyngor a sefydliadau partner yn ymateb gyda'r hyn y maent hwy'n ei wneud i frwydro yn erbyn y materion hyn ac mae'r Fforwm Ieuenctid yn mapio'r hyn sy'n bodoli yn eu cymunedau a beth yw'r heriau o ran cael mynediad at y gwasanaethau hynny;
- mae gan y Cyngor rôl newydd, 'Swyddog llety pobl ifanc' i weithio'n benodol gyda phobl ifanc i ddatrys anghenion llety;
- fe wnaeth yr ymgynghoriad ar gyfer asesiad llesiant y BGC ennyn ymgysylltiad dinasyddion mewn modd gweithredol. Bu'r ymgynghoriad o gymorth i ganfod beth y mae cymunedau'n ei wneud yn dda a pha gymorth y mae'i angen arnynt gan y Cyngor a'i bartneriaid gyda ffocws ar rymuso cymunedau. Fe wnaeth y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth hon i oleuo'i Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol;

[6] Gweler Atodiad 1

- mae'r gwaith GovTech[7] sy'n mynd rhagddo i wella cludiant gwledig yn darparu enghreifftiau da o ymgysylltu â dinasyddion a allai fod wedi'u hynysu'n gymdeithasol. Aeth yr ymchwilwyr ar ran GovTech i mewn i gymunedau trwy deithio ar y bysiau 'ar lawr gwlad' (gwasanaeth bysiau hyblyg ymatebol sy'n gwneud teithiau ar gais) a buont yn siarad gyda defnyddwyr y gwasanaeth bysiau. Aeth yr ymchwilwyr gyda'r gwasanaeth 'pryd ar glud' hefyd i ymgysylltu â phreswylwyr i ddeall y rhwystrau a gwelliannau awgrymedig. Cyhoeddodd y Cyngor yn ddiweddar mai ef yw'r cyngor cyntaf yn y DU i fwrw ymlaen â mentrau sydd wedi'u bwriadu i ddod o hyd i ddatrysiadau i unigrwydd a chludiant cyhoeddus cyfyngedig mewn rhannau gwledig o'r Sir. Ym mis Medi 2019, cafodd dwy fenter o restr o bump eu dewis i ddatblygu eu mentrau ymhellach yn gynhyrchion neu wasanaethau hyfyw er budd y Sir;
- enillodd Gwasanaeth Ieuenctid y Cyngor wobr rhagoriaeth 'Equality Street' yn ddiweddar am gynnwys ieuenctid LGBTQ+.

30 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i asesu maint problem allgáu ariannol, economaidd a digidol derbynyddion Credyd Cynhwysol. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd gyda phartneriaid i gael mewnwelediad gwell, er enghraifft gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Ond dywedodd swyddogion y Cyngor bod angen rhagor o ddata, yn ogystal â'r capasiti a'r gallu i'w ddadansoddi a'i ddefnyddio, i ddeall pwy ar Gredyd Cynhwysol y mae angen cymorth arnynt a'r math o broblemau a maint y problemau y maent yn eu hwynebu. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor ddata ar sgiliau digidol hawlyddion Credyd Cynhwysol i asesu pa gymorth y mae ei angen arnynt;
- Dywedodd swyddogion y Cyngor wrthym fod angen rhagor o waith i gysylltu â ffermwyr. Gall ffermwyr brofi arwahanrwydd cymdeithasol a wynebu heriau oherwydd technoleg newydd a Brexit;
- Dywedodd swyddogion y Cyngor fod gwybod pwy yw'r bobl yn y sir y mae angen rhagor o gymorth arnynt gyda thlodi'n hollbwysig er mwyn gweithio gyda'r unigolion a'r cymunedau hynny i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u targedu ar eu cyfer.

[7] GovTech Catalyst: cynllun gan Lywodraeth y DU, sy'n cael ei redeg gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth, i helpu cwmnïau technoleg i ddatblygu atebion arloesol i heriau yn y sector cyhoeddus.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

31 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i'r Cyngor mewn gweithdy ym mis Hydref 2019. Yn bresennol roedd y Pennaeth Polisi a Llywodraethu, Swyddog Perfformiad, y Prif Swyddog dros Fenter, Pennaeth yr Economi ac Arloesi, y Rheolwr Tai a Chymunedau, y Rheolwr Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau a'r Arweinydd Newid Ymarfer Newid Bywydau. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau ac o ganlyniad i drafodaethau yn y gweithdy, a myfyrio pellach ar ein canfyddiadau, mae'r Cyngor wedi datblygu'r camau gweithredu canlynol.

Arddangosyn 2: camau gweithredu'r Cyngor

| Deilliant a Ddymunir | Cam Gweithredu | Prif FfoW | Pwy/Pryd | Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth hirdymor ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol. | Adolygu'r weledigaeth a'r uchelgais ar hyn o bryd i sicrhau eu bod yn bwrw golwg y tu hwnt i'r tymor canolig a gwneud hyn yn fwy datganedig yn y diweddariad nesaf o'r strategaeth. | Hirdymor | Pennaeth Menter a Bywiocáu'r Gymuned<br><br>Ionawr 2020 | Dim adnoddau ychwanegol yn ofynnol |
| Cyfeiriad at Gyfiawnder Cymdeithasol yn holl strategaethau'r Cyngor. | Sicrhau bod awduron yn gwreiddio cyfeiriad at gyfiawnder cymdeithasol ym mhob strategaeth yn fframwaith polisi'r Cyngor | Integreiddio | Pennaeth Polisi a Llywodraethu<br><br>Wrth i bolisïau gael eu hadolygu | Dim adnoddau ychwanegol yn ofynnol |
| Mae partneriaid a grwpiau cymunedol yn rhan o gyd-ddylunio a chyflawni datrysiadau cynaliadwy i heriau cymhleth sy'n wynebu'r sir. | Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod yr amodau a'r systemau'n bodoli i gynnwys y gymuned mewn gwaith i fynd i'r afael â heriau sy'n wynebu'r sir. | Cydweithio<br><br>Cynnwys | Rheolwr Datblygu Cymunedau a Phartneriaethau<br><br>Ebrill 2020 | I'w gadarnhau wrth i gynigion gael eu datblygu |

| Deilliant a Ddymunir | Cam Gweithredu | Prif FfoW | Pwy/Pryd | Adnoddau |
|---|---|---|---|---|
| Dealltwriaeth well am faterion tlodi ac unigrwydd mewn cymunedau lleol i'w gwneud yn bosibl targedu ymyriadau a mesur cynnydd yn well. | Cynyddu'r capasiti a'r gallu ar gyfer modelu data a defnyddio data gofodol a chymhwyso hyn i faterion | Ataliol<br><br>Hirdymor | Pennaeth Polisi a Llywodraethu<br><br>Pennaeth Digidol ac Ystwyth<br><br>Ebrill 2020 | I'w gadarnhau wrth i gynigion gael eu datblygu |

32 Gallwn fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

### Arddangosyn 3: Dangosyddion Cadarnhaol o’r Pum Ffordd o Weithio

Mae’r tabl isod yn nodi ‘dangosyddion cadarnhaol’ ar gyfer pob un o’r pum ffordd o weithio yr ydym wedi’u hadnabod. Nid ydym wedi defnyddio’r dangosyddion fel rhestr wirio. Dylid eu hystyried yn ddangosyddion. Fe wnaethant ein helpu i ddod i gasgliadau ar ôl ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

| **Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?** |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae ‘hirdymor’ yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni’r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio’r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a’r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio’r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau’r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi’u nodi lle bydd deilliannau’n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai’n dangos bod corff yn cymhwyso’r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae’r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i’r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy’n pontio’r cenedlaethau.<br>• Mae’r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi’r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae’r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy’n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy’n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
|---|
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru